***Statws** This is the original version (as it was originally enacted).*

ATODLEN 16

RHYDDHAD GRŴP

**RHAN 5**

ADENNILL RHYDDHAD GAN BERSONAU PENODOL

*Adennill rhyddhad grŵp gan un arall o gwmnïau'r grŵp neu gan gyfarwyddwr â rheolaeth*

13 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) pan fo treth i'w chodi o dan baragraff (8) (tynnu rhyddhad grŵp yn ôl),

(b) pan fo'r swm sydd i'w godi felly wedi ei bennu'n derfynol, ac

(c) pan na fo'r holl swm neu ran o'r swm sydd i'w godi felly wedi ei dalu 6 mis ar ôl y dyddiad y daeth yn daladwy.

(2) Gall fod yn ofynnol i'r personau a ganlyn, drwy hysbysiad o dan baragraff 14, dalu'r dreth nas talwyd (ynghyd ag unrhyw log sy'n daladwy)—

(a) y gwerthwr;

(b) unrhyw gwmni a oedd, ar unrhyw adeg berthnasol, yn aelod o'r un grŵp â'r prynwr ac a oedd uwchlaw iddo yn strwythur y grŵp;

(c) unrhyw berson a oedd, ar unrhyw adeg berthnasol, yn gyfarwyddwr â rheolaeth dros y prynwr neu'n gwmni â rheolaeth dros y prynwr.

(3) At ddibenion is-baragraff (2)(b)—

(a) ystyr "adeg berthnasol" yw unrhyw adeg rhwng y dyddiad y mae'r trafodiad a ryddheir yn cael effaith a phan fydd y prynwr yn peidio â bod yn aelod o'r un grŵp â'r gwerthwr;

(b) mae cwmni ("cwmni A") "uwchlaw" cwmni arall ("cwmni B") o fewn strwythur grŵp os yw cwmni B, neu gwmni arall sydd uwchlaw cwmni B yn strwythur y grŵp, yn is-gwmni 75% i gwmni A.

(4) Yn is-baragraff (2)(c)—

mae i "cyfarwyddwr", mewn perthynas â chwmni, yr ystyr a roddir i "director" gan adran 67(1) o Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p. 1) (a ddarllenir ar y cyd ag is-adran (2) o'r adran honno) ac mae'n cynnwys unrhyw berson sydd o fewn adran 452(1) o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010 (p. 4);

ystyr "cyfarwyddwr â rheolaeth" ("*controlling director*"), mewn perthynas â chwmni, yw un o gyfarwyddwyr y cwmni sydd â rheolaeth drosto (gan ddehongli rheolaeth yn unol â'r diffiniad o "control" yn adrannau 450 a 451 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010 (p. 4)).

(5) At ddibenion y paragraff hwn, nid yw hawliad wedi ei bennu'n derfynol hyd na ellir amrywio—

(a) yr hawliad, neu

(b) y swm y mae'n ymwneud ag ef,

mwyach (boed drwy adolygiad, drwy apêl neu fel arall).

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

*Adennill rhyddhad grŵp: atodol*

14 (1) Caiff ACC ddyroddi hysbysiad i berson sydd o fewn paragraff 13(2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r person dalu'r swm sy'n parhau heb ei dalu cyn diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y dyroddir yr hysbysiad.

(2) Rhaid dyroddi hysbysiad o dan is-baragraff (1) cyn diwedd y cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau â dyddiad pennu'r swm terfynol a grybwyllir ym mharagraff 13(1)(b).

(3) Rhaid i'r hysbysiad ddatgan y swm y mae'n ofynnol i'r person y dyroddir yr hysbysiad iddo ei dalu.

(4) Mae'r swm hwnnw yn "swm perthnasol" sy'n daladwy gan y person y dyroddir yr hysbysiad iddo at ddibenion Rhan 7 o DCRhT (talu a gorfodi).

(5) Caiff person sydd wedi talu swm yn unol â hysbysiad o dan y paragraff hwn adennill y swm hwnnw gan y prynwr.